# TYSTIOLAETH YSGRIFENEDIG I'R PWYLLGOR CYMUNEDAU A DIWYLLIANT AR Y PORTFFOLIO TAI AC ADFYWIO

## Cyflwyniad

1. Mae'r papur hwn yn tynnu sylw at y datblygiadau allweddol dros y cyfnod rhwng mis Tachwedd 2009 a mis Hydref 2010 ym mhortffolio y Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio.

## Y Strategaeth Dai Genedlaethol

2. Cyhoeddwyd strategaeth genedlaethol newydd ym maes tai, "Gwella Bywydau a Chymunedau: Cartrefi yng Nghymru" ym mis Ebrill 2010. Mae'n cyflwyno, mor syml ag y bo modd, yr heriau, y blaenoriaethau a'r camau a gymerir. Gwella bywydau pobl yw prif nod y strategaeth.

3. Bydd y strategaeth yn arwain at weithredu mewn tri maes blaenoriaeth eang: darparu rhagor o dai o'r math iawn a chynnig mwy o ddewis; gwella cartrefi a chymunedau, gan gynnwys gwella effeithlonrwydd ynni cartrefi newydd a rhai sy'n bodoli eisoes; a gwella cymorth a gwasanaethau ym maes tai, yn enwedig ar gyfer pobl agored i niwed a phobl o grwpiau lleiafrifol.

4. Mae'r strategaeth yn cydnabod y pwysau sydd ar arian cyhoeddus a bydd pwyslais ar fod yn ddoeth wrth wario'r arian sydd ar gael er mwyn cael yr effaith fwyaf ar gynifer o bobl â phosibl, a chanfod ffyrdd newydd a mwy effeithlon o redeg gwasanaethau. Un o'r datblygiadau allweddol fydd Ymddiriedolaeth Fuddsoddi Tai Cymru a fydd yn ceisio denu buddsoddiad preifat er mwyn sicrhau rhagor o dai fforddiadwy.

5. Sefydlwyd Bwrdd Rhaglen newydd i hybu'r gwaith o weithredu'r strategaeth. Mae hyn yn dwyn ynghyd yr holl brif gyrff ym maes tai, o'r sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol.

## Y Sector Rhentu Preifat

6. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymgynghori ar nifer o fesurau rheoleiddio ychwanegol ar gyfer y sector rhentu preifat. Caiff adroddiad cryno ar yr ymateb i'r ymgynghoriad ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth y Cynulliad.

7. Mae camau'n cael eu cymryd i wella'r rhan y mae'r sector yn ei chwarae yn y gwaith o ddiwallu anghenion tai. Mae gweithgor o swyddogion a chynrychiolwyr sefydliadau sy'n gweithio yn y sector, neu'n ymwneud ag ef, yn archwilio'r angen i ddatblygu ymhellach a chymryd camau pellach. Mae'n ystyried yr ymateb i'r ymgynghoriad a dull gweithredu gwahanol Llywodraeth Glymblaid newydd y DU.

**Adroddiad y Pwyllgor Cyfle Cyfartal ar Wasanaethau Addasu a Chynnal a Chadw Cartrefi ar gyfer Pobl Hŷn**

8. Mae swyddogion wrthi'n gweithio mewn partneriaeth â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a sefydliadau eraill i weithredu argymhellion Adroddiad Pwyllgor Cyfle Cyfartal y Cynulliad ar *Wasanaethau Addasu a Chynnal a Chadw Cartrefi ar gyfer Pobl Hŷn.* Sefydlwyd gweithgor i ymateb i'r pryderon a godwyd gan y Pwyllgor. Rydym yn bwriadu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor yn yr hydref am y gwaith a gyflawnwyd.

**Tai ar gyfer Pobl Hŷn: Byw'n Dda, Byw Bywyd Annibynnol**

9. Mae'r adroddiad hwn yn awgrymu agwedd strategol at fynd i'r afael ag anghenion tai pobl hŷn. Fe'i comisiynwyd yng ngoleuni tueddiadau demograffig a'i gyhoeddi ar wefan Llywodraeth y Cynulliad ym mis Mawrth 2010.

10. Mae swyddogion yn y Cyfarwyddiaethau Tai, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cydweithio i fynd i'r afael ag anghenion y dyfodol. Yn ychwanegol at hyn, mae gwaith yn cael ei wneud gyda sefydliadau y tu allan i Lywodraeth y Cynulliad drwy Fwrdd Rhaglen sydd wedi'i sefydlu i weithredu'r strategaeth dai genedlaethol. Mae gwella'r dull o gydweithio ar draws ffiniau proffesiynol a sefydliadau yn flaenoriaeth.

**Nod Cymru'n Un, darparu 6,500 o dai fforddiadwy ychwanegol**

11. Yn ystod y ddwy flynedd gyntaf (2007/08 – 2008/09), darparwyd cyfanswm o 4,235 o unedau tai fforddiadwy ychwanegol ledled Cymru, sydd ymhell dros hanner ffordd i gwrdd â'r targed. Trefnwyd bod cyllid o'r brif Raglen Grant Tai Cymdeithasol a chyllid ychwanegol o'r Gronfa Buddsoddi Cyfalaf Strategol ar gael i helpu i ddarparu tai fforddiadwy. Cyhoeddir yr ystadegau diweddaraf yn yr hydref 2010.

**Defnyddio tir sy'n eiddo cyhoeddus ar gyfer tai fforddiadwy**

12. Trosglwyddwyd tri safle yn ystod 2009-10. Mae safleoedd ledled Cymru'n dal i gael eu dewis i'w gwaredu i gymdeithasau tai er mwyn ymateb i brinder tai fforddiadwy a darparu contractau i gefnogi'r diwydiant adeiladu. Mae camau ar y gweill gydag awdurdodau lleol a chymdeithasau tai i gyflymu cryn dipyn ar y gwaith o drosglwyddo safleoedd. Ar hyn o bryd, rydym yn gweithio i ddefnyddio pymtheg safle ychwanegol.

**Cymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai a'r Polisïau ar Renti'r Sector Cymdeithasol**

13. Cafodd adolygiadau annibynnol o Gymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai (HRAS) a'r Polisïau ar Renti'r Sector Cymdeithasol eu lansio yn 2009. Mae cysylltiad agos rhyngddynt ac maent yn ymwybodol o'r sefyllfa

bresennol ac yn parhau â'r ffordd o weithio mewn partneriaeth a ddatblygwyd gan Rhaglen Gyflawni Essex. Mae Cydbwyllgor Llywio, sy'n cynnwys swyddogion a rhanddeilaid allweddol, yn llywio'r ddau adolygiad ac mae wedi cyfarfod dair gwaith.

14. Mae Adolygiad HRAS yn bwriadu talu sylw i oblygiadau'r Adolygiad o Gyllid Tai Cyngor yn Lloegr, cymharu trefn HRAS yng Nghymru â threfniadau Cyllid Tai yn Lloegr a'r Alban yn fwy cyffredinol, a chanfod opsiynau ar gyfer diwygio'r trefniadau.

15. Mae HRAS yn berthnasol i bob awdurdod lleol sydd â stoc tai ac, yng Nghymru, mae'r holl awdurdodau mewn sefyllfa 'cymhorthdal negyddol'. Mae hyn yn golygu y bydd tua £78m yn cael ei gasglu oddi wrth awdurdodau lleol Cymru yn 2010/11 a'i anfon ymlaen i Drysorlys Ei Mawrhydi.

16. Mae syniadau'n cael eu datblygu i ddiwygio'r sefyllfa yng Nghymru, trwy'r Adolygiad, gan gydweithio â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac eraill. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydweithio'n agos â'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol i fonitro hynt yr adolygiad yn Lloegr ac i sicrhau bod y darpariaethau yn y Mesur Datganoli a Gweithredu Lleol sydd ar y gweill a gyhoeddwyd yn Araith y Frenhines yn addas ar gyfer Cymru ac yn cael eu gwneud yng nghyd-destun Cymru.

17. O ran rhenti'r sector cymdeithasol, y Gyfarwyddiaeth Dai sy'n gyfrifol am bennu rhenti awgrymedig at ddibenion Cymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer Awdurdodau Lleol a meincnodi rhenti ar gyfer Sector y Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Rhent yw prif ffynhonnell incwm cymdeithasau tai ac mae'n dod i mewn â chyllid ar gyfer codi morgeisi o'r sector preifat i godi rhagor o dai. Mae hynny'n hanfodol er mwyn sicrhau bod y cynlluniau busnes yn gynaliadwy ac er mwyn bodloni Safon Ansawdd Tai Cymru.

18. Mae'r Cyd-grŵp Llywio wedi cyfarfod dair gwaith ac wedi gwneud gwaith modelu a ddefnyddiwyd i ddatblygu fframwaith newydd dros dro ar gyfer trefn renti ddiwygiedig. Bydd y model newydd yn talu sylw i faint, math, lleoliad ac ansawdd pob eiddo. Cynhelir ymgynghoriad cyhoeddus ar y model newydd pan fydd y gwaith ymchwil rhagarweiniol wedi'i wneud. Disgwylir i'r ymgynghoriad hwn gael ei gynnal yn y gwanwyn.

**Ymddiriedolaeth Fuddsoddi Tai Cymru**

19. Bu Llywodraeth y Cynulliad a'i phartneriaid yn y sector tai cymdeithasol yn trafod datblygu cyfrwng newydd i gyrraedd y marchnadoedd cyfalaf er mwyn cyllido tai cymdeithasol.

20. Yn yr Uwchgynhadledd Cyllid Tai Cymdeithasol a gadeiriwyd gan Brif Weinidog Cymru ym mis Gorffennaf 2009, cymeradwywyd mewn egwyddor gynnig bod y syniad o "Ymddiriedolaeth Fuddsoddi Tai Cymru" yn cael ei symud ymlaen. Byddai'r corff newydd hwn yn buddsoddi'n uniongyrchol mewn eiddo, yn cynnwys eiddo wedi'i osod ar brydles i gymdeithasau tai. Ei amcan fyddai hybu buddsoddi yn y marchnadoedd cyfalaf mewn mentrau ehangach na dim ond tai fforddiadwy sy'n eiddo i gymdeithasau tai, a byddai'n cynnwys tai rhent canolradd, tai rhent y farchnad ac, efallai, mentrau "rhentu i brynu".

21. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi dyfarnu grant o £173,500 i Cartrefi Cymunedol Cymru, er mwyn symud ymlaen ymhellach â'r cynnig i ddatblygu Ymddiriedolaeth Fuddsoddi Tai Cymru. Cynrychiolir Llywodraeth y Cynulliad ar fwrdd prosiectau a drefnir gan Cartrefi Cymunedol Cymru i oruchwylio'r gwaith o gynllunio'r Ymddiriedolaeth a fydd, yn y pen draw, ar wahân i'r Llywodraeth. Mae cysyniad yr Ymddiriedolaeth yn cael ei brofi a'i dreialu'n llawn ar hyn o bryd. Os bydd yn debygol y bydd yn bodloni'r amcanon, y bwriad yw sefydlu'r Ymddiriedolaeth erbyn diwedd 2010. Bydd hyn yn dibynnu'n rhannol ar ba un a yw Llywodraeth y Cynulliad yn fodlon buddsoddi yn yr Ymddiriedolaeth yng ngoleuni'r cynllun terfynol.

**Rhent ganolradd**

22. Mae'r gwaith yn parhau ar gynlluniau i gynnig deiliadaeth fwy hyblyg ac felly ragor o ddewis o ran tai. Ar 28 Mai 2010, cwblhawyd cyfnod ymgynghori ar ganllawiau peilot ar gyfer cynllun rhent canolradd yng Nghymru o'r enw "Rhent yn Gyntaf". Defnyddir y canllawiau i baratoi cynlluniau peilot rhent canolradd yr ydym wedi llwyddo i'w hariannu o ganlyniad i arian o'r Gronfa Buddsoddi Cyfalaf Strategol a byddant yn dechrau yn ystod 2010/2011.

**Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol (LCO) Tai a Llywodraeth Leol**

23. Cymeradwywyd y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol gan Ei Mawrhydi yn y Cyngor ar 21 Gorffennaf 2010. Gwnaed cryn ymdrech i ddatblygu'r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol Tai a Llywodraeth Leol er mwyn rhoi cymhwysedd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru wneud Mesurau ym meysydd darparwyr tai cymdeithasol, deiliadaeth tai cymdeithasol, gwaredu tai cymdeithasol, cymorth yn ymwneud â thai, darparu safleoedd Sipsiwn a Theithwyr, digartrefedd a'r Dreth Gyngor ar dai gwag ac ail gartrefi. Roedd y sector tai yng Nghymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Pwyllgor Materion Cymreig yn cefnogi'r LCO. Fodd bynnag, gan na chafwyd cefnogaeth drawsbleidiol cyn gohirio'r Senedd, ni chafodd yr LCO ei gynnwys yn y broses "cau pen y mwdwl" yn y Senedd cyn etholiad cyffredinol y DU.

24. Mae Mesur Cynulliad ar Dai wedi'i gynnwys yn y rhaglen Ddeddfwriaethol ar gyfer 2010/11. Mae'r Mesur arfaethedig yn cynnwys dau faes penodol:

    i) galluogi'r awdurdodau lleol i wneud cais i Weinidogion Cymru i atal yr Hawl i Brynu mewn ardaloedd lle mae pwysau ar dai;

    ii) rhoi mwy o bwerau rheoleiddio ac ymyrryd i Lywodraeth y Cynulliad yn ymwneud â'r tai a ddarperir gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.

**Adolygiad o Gymorth sy'n Gysylltiedig â Thai**

25. Comisiynwyd adolygiad annibynnol o'r Rhaglen Cymorth sy'n Gysylltiedig â Thai. Yr Athro Syr Mansel Aylward CB, Cadeirydd Iechyd Cyhoeddus Cymru sy'n arwain yr adolygiad a disgwylir yr adroddiad ym mis Hydref eleni.

26. Ar hyn o bryd, mae cyllideb y Rhaglen yn £140 miliwn ac mae'n cynnig cymorth i nifer fawr o bobl agored i niwed ledled Cymru. Bydd yr adolygiad yn cynnig gwybodaeth am ffyrdd mwy effeithlon o weithio a bydd yn cyfrannu at benderfyniadau am ddosbarthu cyllid.

**Cynllun Digartrefedd**

27. Ar ôl cyhoeddi'r Cynllun Digartrefedd Deng Mlynedd i Gymru ym mis Gorffennaf 2009, bu cynrychiolwyr o'r sector gwirfoddol, y sector preifat a'r awdurdodau lleol yn cydweithio â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad i ddrafftio cynllun gweithredu i wireddu'r weledigaeth a amlinellir yn y Cynllun. Mae cyfyngiad amser ar weithredu'r Cynlllun ac fe gaiff y gwaith ei oruchwylio gan swyddogion a chynrychiolwyr o'r sector gwirfoddol, yr awdurdodau lleol a'r sector preifat.

28. Yn ogystal, ceir cyllid ychwanegol o tua £1 miliwn ar gyfer 2010-11 i gymryd camau ychwanegol i atal digartrefedd. Mae'r arian yn helpu 16 prosiect ledled Cymru i wneud gwasanaethau a mentrau'n fwy effeithlon ac effeithiol er mwyn datblygu ymhellach y cymorth sydd ar gael i bobl ddigartref a'r rheini sydd mewn perygl o golli eu cartref.

**Cynllun Achub Morgeisi**

29. Sefydlwyd Tasglu Achub Morgeisi yn 2008 i gynghori sut y dylid mynd i'r afael â'r cynnydd yn nifer y tai sy'n cael eu hadfeddiannu. Lansiwyd y Cynllun Gweithredu Achub Morgeisi yn 2009 gan amlinellu rhaglen weithredu i ostwng nifer y tai sy'n cael eu hadfeddiannu.

30. Mae'r gwaith yn symud ymlaen trwy ein cynllun grantiau Achub Morgeisi, gan ehangu gwasanaethau cynghori ar ddyledion a sicrhau

mwy o gydgysylltu rhwng y llysoedd, awdurdodau lleol, cymdeithasau tai a gwasanaethau cynghori ar dai.

31. Bu'r cynllun yn llwyddiannus iawn gan helpu teuluoedd ledled Cymru. Mae'r ffigurau diweddaraf (hyd at 31 Gorffennaf) yn cadarnhau bod 359 o geisiadau Achub Morgeisi wedi'u cymeradwyo, gan helpu 736 o oedolion a 369 o blant i aros yn eu cartrefi.

**Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC)**

32. Mae un awdurdod ar bymtheg yng Nghymru wedi dweud y gellir cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) a'i gynnal am 30 mlynedd. Mae hyn yn dilyn trosglwyddo stoc i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (RSLs) newydd neu benderfyniad gan Gynghorau i gadw'u stoc tai.

33. Yn unol â chytundeb Cymru'n Un, caniatawyd estyniadau amser i saith awdurdod cadw hyd 2014 neu 2015. Mae tenantiaid un awdurdod lleol wedi pleidleisio o blaid trosglwyddo ei stoc tai, ac mae'n gweithio tuag at hynny. Caniatawyd estyniad (tan 2017) i'r rhain.

34. Mae tri awdurdod yng Nghymru wedi pasio cynigion yn y cyngor i gynnal pleidlais ymhlith y tenantiaid ar gynigion i drosglwyddo eu stoc tai er mwyn cyrraedd SATC. Mae un awdurdod lleol a'r ddau awdurdod lleol a gafodd ganlyniad negyddol ym mhleidlais y tenantiaid wedi derbyn y cymorth a ddarparodd Llywodraeth y Cynulliad i ystyried eu hopsiynau. Ar y cyfan, mae'r cynnydd yn dda.

35. Fodd bynnag, mae SATC yn ymwneud â mwy na brics a mortar ac mae cymunedau lleol eisoes ar eu hennill o ganlyniad i gamau sylweddol i'w hadfywio yn gymdeithasol ac yn economaidd. Mewn ardaloedd fel Blaenau'r Cymoedd, crewyd llawer o swyddi ychwanegol ac mae'r dull hwn o weithredu'n cael ei ailadrodd ledled Cymru.

**Y fenter Hysbysu i Ymrwymo** (

36. Cyfarwyddiaethau Tai ac Adfywio LIywodraeth y Cynulliad sy'n noddi'r fenter Hysbysu i Ymrwymo a'r Sefydliad Tai Siartredig sy'n ei gweithredu. Mae'n dal i gynghori a chefnogi tenantiaid, staff ac aelodau awdurdodau lleol i'w helpu i gyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru. I gefnogi'r agenda hon, paratowyd dau becyn cymorth Gallu Gwneud' i hyrwyddo recriwtio a hyfforddi a dargedir fel un o ofynion craidd contractau, a'r llall yn sôn am gaffael mewn ffordd sy'n addas ar gyfer BBaChau.

37. Casgliad astudiaeth annibynnol ddiweddar o 12 sefydliad tai sydd wedi defnyddio'r dull hwn oedd bod 487 o gyfleoedd ar gyfer hyfforddiant a swyddi wedi'u creu ar gyfer pobl ddi-waith.

**Ardaloedd Adfywio**

38. Rydym wedi cynyddi nifer yr ardaloedd adfywio o bump i saith, gyda'r Barri ac Aberystwyth yn y rhestr o ardaloedd i gael eu hadfywio. Mae'r cynlluniau gweithredu'n cael eu datblygu ar gyfer yr ardaloedd hyn a bydd y gwaith yn dechrau yno cyn hir.

**Paru Swyddi**

39. Mae Paru Swyddi (JobMatch) wedi bod yn rhaglen eithriadol o lwyddiannus sy'n helpu pobl i gael gwaith. Ers ei lansio yn 2003, mae Paru Swyddi wedi helpu dros 5000 o bobl i fynd yn ôl i weithio, yn bennaf yn ardal Blaenau'r Cymoedd. Mae Paru Swyddi yn cynnwys pum elfen sydd, gyda'i gilydd, yn helpu pobl i oresgyn y rhwystrau sy'n eu cadw rhag gweithio (Ymgysylltu, Asesu, Datblygu, Lleoli, Cefnogaeth yn y Gwaith).

40. Mae gwaith ar y gweill i gynnwys y rhain yn rhaglenni gwaith yr ardaloedd adfywio ac ardaloedd amddifadus eraill ledled Cymru. Yr hyn a wneir yw gweithio gyda rhaglenni cymorth-i-weithio sydd eisoes yn gweithredu yn yr ardal i fynd i'r afael ag unrhyw elfennau coll.

**Arbed**

41. Mae rhaglen Arbed yn rhaglen fawr i ôl-ffitio dyfeisiau arbed ynni a micro-gynhyrchu ynni mewn tai. Cychwynnodd y rhaglen ym Mlaenau'r Cymoedd fel rhan o gyfres o gamau yn y parth carbon isel ac erbyn hyn mae'n cael ei roi ar waith fesul tipyn yn yr holl ardaloedd adfywio. Mae'n cefnogi nod Cymru'n Un o ddileu tlodi tanwydd, a hybu datblygu economaidd ac adfywio yng Nghymru. Bydd hefyd yn helpu i gyrraedd y targedau o ostwng allyriadau CO2 dri y cant.

42. Mae tua £30m o arian y Gronfa Buddsoddi Cyfalaf Strategol (SCIF) yn cael ei fuddsoddi yn rhaglen *Arbed* yn 2010-11. Mae dros 21 o brosiectau ar y gweill, yn targedu cymunedau incwm-isel mewn ardaloedd adfywio yng Nghymru. Os gellir sicrhau arian cyfatebol o ffynonellau eraill, byddai modd casglu cronfa o £350m dros dair blynedd, yn cynnwys grant o £1m o'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd (DECC) yn San Steffan. Bydd Cam 2 yn defnyddio arian ERDF i estyn rhaglen *Arbed* dros gyfnod o 3-5 mlynedd. Mae cyfernodau llafur y Trysorlys yn amcangyfrif, ar brisiau 2009, bod 16-32 o flynyddoedd gwaith i unigolyn yn cael eu cynhyrchu am bob £1m sy'n cael ei wario ar gynlluniau ôl-ffitio tai.

43. Bydd cymdeithasau tai yn helpu i gyflenwi'r rhaglen hon a bydd y cyflenwyr yn galluogi busnesau yng Nghymru i elwa ar y cyfleoedd a gynigir. Mae'r rhaglen yn cynnwys gweithio gyda darparwyr hyfforddiant i sicrhau bod y sgiliau angenrheidiol ar gael i wneud y gwaith ac y gall pobl leol elwa ar y buddsoddiadau.

**Gwaith Dur Glynebwy (y Gweithfeydd)**

44. Mae rhai o'r prif ddatblygiadau wedi hen ddechrau ac mae'r canolbwynt – gwaith adfer a glasu'r cwm bach sy'n rhedeg trwy'r safle – eisoes yn denu pobl leol. Mae'r safle 200 erw'n cael ei drawsnewid yn ddatbygiad cynaliadwy amrywiol. Bydd cyfanswm y gost yn £350 miliwn a'r nod yw creu 2,000 o swyddi newydd ynghyd â chyfleusterau cymunedol, yn cynnwys ysbyty ac ysgol gynradd newydd.

45. Cafodd nifer o brosiectau ar y safle eu dadorchuddio yn yr Eisteddfod (a gynhaliwyd yng Nglynebwy ym mis Awst) yn cynnwys dau "Dŷ Ynni Goddefol" a fydd yn ganolbwynt Cartrefi'r Dyfodol a chanolfan arddangos ar gyfer datblygu cynaliadwy. Agorwyd y caffi, yr ystafell fapiau a'r sinema 5D hefyd.

**Ymgyrch Calon ac Enaid y Cymoedd**

46. Mae'r ymgyrch yn rhan o fuddsoddiad o £22m dros dair blynedd i godi proffil cymoedd y De gyda'r bwriad o ddenu ymwelwyr a meithrin balchder yn yr ardal. Yn ystod y chwe mis diwethaf, lansiwyd gwefan Calon ac Enaid y Cymoedd, cafwyd cyngherddau gan y Lost Prophets ac Only Men Aloud, cynhaliwyd ymgyrch flynyddol Glanhau'r Cymoedd, a lansiwyd cystadleuaeth ffotograffiaeth Calon ac Enaid y Cymoedd.